

Polisi Iaith Gymraeg

Gorffennaf 2026

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
2.	Cefndir	3
3.	Cwmpas	4
4.	Hyrwyddo mynediad at gymwysterau dwyieithog Cymreig a'u argaeledd.....	4
5.	Cynhyrchion a Gwasanaethau	4
6.	Adolygiad	5

1. Cyflwyniad

Mae VTCT Skills yn sefydliad dyfarnu blaenllaw ac yn Sefydliad Asesu Pwynt Terfyn (EPAO), y mae cyflogwyr a chanolfannau yn ymddiried ynddo i rymuso dysgwyr i feddwl yn fwy, cyflawni mwy a thyfu. Rydym yn cynnig cymwysterau ac asesiadau ar draws amrywiaeth o sectorau, gan sicrhau bod ein cymwysterau'n bodloni safonau'r diwydiant er mwyn galluogi dysgwyr a busnesau i ffynnu.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth Cymraeg 2050 i gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r strategaeth yn cydnabod mai addysg a hyfforddiant yw'r prif ddulliau o gyflawni'r targed hwn, drwy gefnogi pobl i ddefnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle fel rhan o fywyd bob dydd.

Mae VTCT Skills yn falch o gefnogi'r nod hwn ac yn gweithio tuag at gynnig darpariaeth ddwyieithog ragweithiol i'n canolfannau a'n dysgwyr yng Nghymru.

2. Cefndir

Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn cynnwys yr ymrwymadau canlynol:

- rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru
- gwneud darpariaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg
- gwneud darpariaeth ynghylch safonau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg
- sefydlu'r egwyddor y dylid trin yr iaith Gymraeg ar yr un sail ffafriol â'r iaith Saesneg
- gwneud darpariaeth ar gyfer ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r iaith Gymraeg

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn cryfhau'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu'r Gymraeg, gyda'r nod craidd o sicrhau bod pob dysgwr yn gadael addysg orfodol fel defnyddiwr annibynnol o'r Gymraeg. Mae'n ymgorffori targedau statudol, yn diffinio categorïau iaith ysgolion, yn safoni hyfedredd yn y Gymraeg drwy ddefnyddio lefelau CEFR, ac yn alinio dyletswyddau cynllunio ar draws lefelau cenedlaethol, lleol ac ysgol. Mae hefyd yn sefydlu Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg i gefnogi dysgu'r Gymraeg ar draws pob oedran.

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn cyflwyno'r prif fesurau canlynol:

- sefydlu targed statudol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a mynnu targedau ychwanegol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol ac yn y gweithle
- cyflwyno fframwaith cenedlaethol sy'n cyd-fynd â CEFR ar gyfer disgrifio hyfedredd yn y Gymraeg er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyson o lefelau gallu ieithyddol
- diffinio tri chategori statudol o ysgolion o ran iaith: Cymraeg Iaith Gyntaf, Dwyieithog, a Saesneg Iaith Gyntaf, gyda rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg, pob un â throthwyon darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a chanlyniadau dysgu

- alinio cynllunio ar draws y system drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion lunio cynlluniau addysg Gymraeg cysylltiedig a fframwaith cenedlaethol
- sefydlu'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg i gefnogi dysgu'r Gymraeg ar draws pob oedran ac i gryfhau'r gweithlu addysg

3. Cwmpas

Mae VTCT Skills wedi ymrwymo i sicrhau bod dysgu dwyieithog yn hygyrch i bob dysgwr sy'n dymuno cael y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae Polisi Iaith Gymraeg VTCT Skills yn cael ei gyhoeddi ar ei wefan.

Mae VTCT Skills yn annog canolfannau i ddarparu cymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg a bydd yn monitro lefel y gweithgarwch yn ein canolfannau.

4. Hyrwyddo mynediad at gymwysterau dwyieithog Cymraeg

Bydd VTCT Skills yn gweithio mewn partneriaeth â Chymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru, asiantaethau perthnasol, sefydliadau dyfarnu eraill a chanolfannau i hyrwyddo mentrau cenedlaethol.

Mae VTCT Skills yn parhau i hyrwyddo ei gymwysterau dwyieithog Cymraeg drwy ei wefan a thudalen lanio bwrpasol ar gyfer cymwysterau dwyieithog Cymraeg, drwy ddogfennau marchnata sy'n hysbysu canolfannau am yr adnoddau sydd ar gael, a thrwy gyswllt uniongyrchol â chanolfannau gan y Rheolwr Cyfrifon Allweddol penodedig ar gyfer Cymru.

Cyhoeddir manylebau cymwysterau ac unedau dwyieithog Cymraeg, ynghyd â dogfennau asesu ac arholiadau, ochr yn ochr â'r holl ddogfennaeth berthnasol arall ar gyfer pob cymhwyster.

4. Cynhyrchion a Gwasanaethau

Cynhyrchion

Bydd VTCT Skills yn parhau i ddatblygu a darparu deunyddiau dwyieithog Cymraeg i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn y cynllun strategol ar gyfer y Gymraeg.

Bydd VTCT Skills yn cadarnhau a yw'r cymhwyster ar gael yn llawn yn Gymraeg neu'n rhannol yn Gymraeg ar gronfa ddata Cymwysterau Cymru (QiW).

Gellir dod o hyd i'r ddolen i gronfa ddata QiW yma: <https://www.qiw.wales/home>

Mae VTCT Skills wedi cyhoeddi cynhyrchion cymwysterau ac asesu dwyieithog Cymraeg i gefnogi'r gwaith o ddarparu ein cymwysterau mwyaf poblogaidd, gan hyrwyddo ein nod o gynnig darpariaeth gwbl ragweithiol i Gymru. Mae'r cynhyrchion yn cynnwys manyleb y cymhwyster, yr holl ddeunyddiau asesu ac unrhyw ddeunyddiau asesu sampl, lle bo'n berthnasol.

Mae VTCT Skills wedi cymryd gofal i ystyried cyflwyniad y cynhyrchion; mae defnyddio cyflwyniad drych, sy'n dangos y Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg, yn galluogi cymhariaeth a gwirio ystyr yn gyflym ac yn hawdd, gan sicrhau bod y deunyddiau'n hygyrch i bobl o bob lefel o allu yn y Gymraeg.

Mae VTCT Skills hefyd yn ymateb i geisiadau gan ganolfannau am gynhyrchion dwyieithog Cymraeg ychwanegol. Mae gan VTCT Skills broses sefydledig i ganolfannau ei dilyn i ofyn am gyfieithiad drwy [Ganolfan Swyddogion Arholiadau ar ei wefan](#) a'r [dudalen we cymwysterau dwyieithog Cymraeg](#).

Sicrhau Ansawdd

Mae gan VTCT Skills brosesau ac arferion sefydledig sy'n galluogi asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd VTCT Skills yn monitro nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau dwyieithog Cymraeg.

Sicrhau Ansawdd Allanol

Bydd VTCT Skills yn darparu cymorth Cymraeg i ganolfannau ar gyfer sicrhau ansawdd allanol mewn perthynas ag asesiadau a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd VTCT Skills yn gwneud pob ymdrech i recriwtio Sicrhawyr Ansawdd Allanol dwyieithog lle nodir angen.

Marchnata

Bydd VTCT Skills yn parhau i sicrhau bod dogfennaeth ar gael i hysbysu cwsmeriaid am yr adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg.

5. Adolygiad

Bydd VTCT Skills yn adolygu ei Bolisi Iaith Gymraeg a'i ddarpariaeth o gymwysterau dwyieithog Cymraeg yn flynyddol. Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn cael ei lywio gan ein rhanddeiliaid â chanolfannau er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd a'i berthnasedd. Bydd adborth gan ddysgwyr, staff a rhanddeiliaid yn werthfawr wrth lunio ein dull gweithredu ac wrth nodi meysydd i'w datblygu.

Tudalen hanes diwygiadau'r ddogfen

Fersiwn	Perchennog y Ddogfen	Dyddiad Cyhoeddi	Newidiadau	Swyddogaeth
v1.0	Pennaeth Asesu	27/11/2024	Cyhoeddwyd gyntaf	Pennaeth Asesu
v2.0	Pennaeth Cyflwyno Asesiadau	27/2/2026	Diweddarwyd gyda Deddf Addysg (Cymru) 2025	Pennaeth Datblygu Cymwysterau ac Asesu
v3.0	Pennaeth Asesu Cyflwyno	07/07/2026	Ychwanegwyd dolen i gronfa ddata QiW o fewn adran 5.	Pennaeth Datblygu Cymwysterau ac Asesiad

Adolygiad Dogfen

Swyddogaeth	Statws Adolygiad
Pennaeth Rheoleiddio	Adolygwyd
Rheolwr Rheoleiddio	Adolygwyd
Pennaeth Polisi a Gwerthiant (Cymru)	Adolygwyd

Perchennog y Ddogfen

Perchennog y Ddogfen	Dogfen wedi'i rhannu â
Pennaeth Asesiad	Pennaeth Datblygu Cymwysterau ac Asesiad

Cymeradwyo Dogfennau

Swyddogaeth	Dyddiad Cau
Pennaeth Asesu	27/11/2024